

**RHAGLEN**

**DATGAN BUDDIANNAU**

**Atgoffir yr Aelodau'n barchus o'r angen i ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.**

Caplan y Maer i ddechrau'r cyfarfod trwy arwain pawb sy'n bresennol mewn Gweddi.

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

**2. COFNODION**

Cadarnhau fel cofnod cywir gofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau (copïau'n amgaeëdig):

Cyfarfod Blynyddol y Cyngor - 18fed Mai 2016 - Rhifau Cofnod 1-18

Pwyllgor Cynllunio - 1af Mehefin 2016 - Rhifau Cofnod 1- 3

I Gadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol - 1af Mehefin 2016 - Rhifau Cofnod 1-? (copi i ddilyn)

**3. ADRODDIAD Y MAER**

Derbyn manylion y digwyddiadau a fynychwyd gan y Maer a'r Dirprwy Faer dros y mis diwethaf (copi'n amgaeëdig).

**4. RHYDDFREINIWR ANRHYDEDDUS Y RHYL, MR PETER ROBINSON**

Mewn perthynas â chofnod rhif 5 Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 18fed Mai 2016, a chan ddefnyddio'r pwerau a roddwyd iddo gan statud, derbyn fel Rhyddfrefreiniwr Anrhydeddus Tref y Rhyl (y dynodiad mwyaf anrhydeddus y mae'n fraint i'r Cyngor Tref ei roddi), Mr Peter Robinson, i werthfawrogi'r gwasanaeth cyhoeddus hynod y mae wedi ei roi fel un o ddinasyddion y Rhyl a chyflwyno iddo arwyddlun y Dref a thystysgrif.

**5. EITEMAU ER GWYBODAETH**

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain a gytunwyd gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

**6. HOLI AC ATEB**

Derbyn cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd sy'n bresennol.

**7. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

**8. SEFYDLIAD**

Ystyried adroddiad cyfrinachol Clerc y Dref (copi'n amgaeedig).

**9. TERFYNU'R CYFARFOD**

Y Maer i ddirwyn y cyfarfod i ben.